# Rheolau ac Arweiniad

## Rheolau Statudol ac Arweiniad nad yw'n Rhwymo ar gyfer Darparwyr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw

**Arweiniad**

Cyhoeddwyd: 10 Rhagfyr 2021
Diweddarwyd: 7 Awst 2025

# Cynnwys

## Adran


Cyflwyniad....3

Y Rheolau a'r Arweiniad....5

# Cyflwyniad

## Pwrpas y ddogfen hon

1.1 Mae’r ddogfen hon yn nodi’r gofynion statudol y mae’n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw gydymffurfio â nhw (“y Rheolau”).

1.2 Mae’r Arweiniad cysylltiedig (“yr Arweiniad”) yn cael ei roi i helpu darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw i ddeall sut mae Ofcom yn dehongli’r rheolau. Nid yw’r Rheolau eu hunain yn cael eu gosod gan Ofcom; maent yn deillio o Ran 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd) (y “Ddeddf”). Nid yw’r Arweiniad yn gynhwysfawr ac mae’n egluro rhai goblygiadau ymarferol pwysig i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw.

1.3 Mae Ofcom hefyd wedi cyhoeddi arweiniad ychwanegol ar ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol sy'n berthnasol i ddefnyddio Rheolau 10, 11 a 12. Mae ar gael yma: Arweiniad i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.

1.4 Mae arweiniad ychwanegol ar ofynion gwaith Ewropeaidd sy'n berthnasol i ddefnyddio Rheol 15 ar gael yma: Arweiniad i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar ofynion sy’n ymwneud â gwaith Ewropeaidd.

1.5 Ni chaiff y gofynion statudol ar gyfer hysbysebu ar wasanaethau rhaglenni ar-alw eu cynnwys yma. Mae Ofcom wedi dynodi'r Awdurdod Safonau Hysbysebu yn gyd-reoleiddiwr mewn perthynas â hysbysebu mewn gwasanaethau rhaglenni ar-alw o 1 Medi 2010 ymlaen[1] (er nad yw hyn yn berthnasol mewn perthynas â gorfodi gofynion hysbysebu gwasanaethau rhaglenni ar-alw - mae Ofcom wedi cadw'r swyddogaethau hyn).

1.6 Mae'r Rheolau'n adlewyrchu Rhan 4A o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd). Mae’r Rheolau’n cynnwys cyfeiriadau yn y troednodiadau at y darpariaethau statudol sy’n sail iddynt. Pan fydd darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn torri Rheol, mae hynny’n golygu ei fod wedi torri’r ddarpariaeth statudol berthnasol. Os bydd unrhyw wrthdaro anfwriadol yn yr ystyr neu’r dehongliad rhwng y Rheolau a’r Ddeddf, y Ddeddf fydd drechaf.

### Yr Arweiniad

1.7 Mae’r Arweiniad yn y ddogfen hon yn cael ei darparu i helpu darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw i ddeall y Rheolau a sut mae Ofcom yn eu defnyddio. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd Ofcom yn barod i ymateb i geisiadau am arweiniad cyffredinol ychwanegol ynghylch ei ddehongliad o’r gofynion statudol pan fydd ceisiadau o'r fath yn codi pryder cyffredinol i randdeiliaid, ond ni all ac ni wnaiff ymgymryd â chlirio cynnwys

[1] Mae’r rheolau hysbysebu perthnasol ar gael yn: https://www.cap.org.uk/Advertising-Codes/Non-Broadcast/CodeItem.aspx?cscid={aa7bc9c1-4ca6-4c00-b580-a9b01fe5f00f}#.VnF2IEqLTGg

gwasanaeth rhaglenni ar-alw ymlaen llaw. Mae unrhyw arweiniad ychwanegol o'r fath a roddir yn anffurfiol a heb ragfarn i hawl Ofcom i ymchwilio a gweithredu os caiff rheol ei thorri.

1.8 Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf. Dylent geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar unrhyw faterion ynghylch cydymffurfio. Nid yw Ofcom yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a honnir iddo ddigwydd oherwydd bod rhywun wedi dibynnu ar ei Arweiniad a gyhoeddwyd neu unrhyw arweiniad anffurfiol ychwanegol y gall ei roi.

1.9 Dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ddefnyddio gwefan Ofcom i weld penderfyniadau a gyhoeddir am dorri rheolau a phenderfyniadau am sancsiynau[2] a newidiadau y mae modd eu gwneud o bryd i'w gilydd i ddehongliad presennol Ofcom o'r Rheolau.

1.10 Ar ôl dilyn ei weithdrefnau a gyhoeddwyd, os bydd Ofcom yn canfod bod darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alw wedi torri unrhyw un o'r gofynion perthnasol, fel rheol bydd yn cyhoeddi penderfyniad ac yn egluro pam mae'r darparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alw wedi torri'r gofyniad. Os oes angen, gall Ofcom ddefnyddio ei bwerau o dan y Ddeddf i gyhoeddi hysbysiadau gorfodaeth statudol.

## Gorfodi

1.11 Gall y gofynion a nodir mewn hysbysiad gorfodaeth yn benodol gynnwys gofynion i wneud un neu ragor o'r canlynol:

- rhoi'r gorau i ddarparu neu gyfyngu ar fynediad i raglen neu hysbyseb benodol, neu raglenni sydd â disgrifiad penodol;
- darparu gwybodaeth ychwanegol i ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn iddynt ddewis rhaglen benodol i'w gwylio;
- cyhoeddi cywiriad ar ffurf ac ar adeg a nodir;
- cyhoeddi datganiad ynghylch canfyddiadau Ofcom ar ffurf ac ar adeg a nodir.

1.12 Caiff Ofcom ystyried achosion o dorri'r Rheolau ar gyfer rhoi sancsiynau, gan gynnwys cosbau ariannol. O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, gall swm y gosb ariannol a roddir ar ddarparwr gwasanaethau rhaglenni ar-alw fod hyd at 5% o refeniw cymwys perthnasol y darparwr[3], neu £250,000 (pa un bynnag sydd fwyaf); ar gyfer gwasanaethau'r BBC, y gosb uchaf yw £250,000.

---

[2] Caiff Penderfyniadau Ofcom eu cyhoeddi ym Mwletinau Broadcasting and On Demand Ofcom, sydd ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/broadcast-standards/broadcast-bulletins/

[3] Caiff 'refeniw cymwys perthnasol' ei ddiffinio yn a368J o'r Ddeddf.

# Y Rheolau a’r Arweiniad

2.1 Caiff arweiniad sy’n adlewyrchu dehongliad cyfredol Ofcom ei ddarparu mewn llythrennau italig o dan bob Rheol. Bwriedir i’r Arweiniad fod yn gyngor ymarferol. Ni fwriedir iddo ategu’r Rheolau na’r gofynion statudol cyfatebol. **Nid yw cydymffurfio â’r Arweiniad yn ffactor a fydd yn penderfynu a gydymffurfiwyd â'r Rheolau a’r gofynion statudol cyfatebol.**

2.2 Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw ystyried, ar ôl cael cyngor cyfreithiol ei hun os yw hynny'n briodol, a yw'r gwasanaeth y mae'n bwriadu ei ddarparu, neu ran ddatgysylltiol o'r gwasanaeth y mae'n bwriadu ei ddarparu, yn wasanaeth rhaglenni ar-alw. Mae Ofcom wedi cyhoeddi arweiniad i helpu darparwyr gwasanaethau i benderfynu a oes angen iddynt hysbysu.

2.3 Bydd diffiniadau statudol yn cael eu darparu pan fydd hynny’n briodol. Sylwch fod y ddeddfwriaeth yn defnyddio’r term “awdurdod rheoleiddio priodol”. Ac eithrio mewn perthynas â hysbysebu, y mae'r Awdurdod Safonau Hysbysebu wedi'i dynodi'n awdurdod rheoleiddio priodol ar ei gyfer (ac eithrio mewn perthynas â gorfodi), mae hynny'n golygu Ofcom oherwydd nad oes unrhyw gorff arall wedi'i ddynodi o dan adran 368B ar hyn o bryd.

## Rheolau Gweinyddol

### Rheol 1: Hysbysiad o fwriad i ddarparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw[4]

2.4 Rhaid i berson beidio â darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw oni bai, cyn dechrau ei ddarparu, bod y person hwnnw wedi rhoi hysbysiad i Ofcom o fwriad y person i ddarparu’r gwasanaeth hwnnw.

2.5 Rhaid anfon hysbysiad o’r fath i Ofcom mewn ffordd o’r fath, a gan gynnwys gwybodaeth o’r fath, y gall Ofcom fynnu.

### Arweiniad

2.6 *Mae'r gofyniad i hysbysu, ac yn wir Reolau eraill, yn berthnasol i ddarparwyr “gwasanaethau rhaglenni ar-alw” fel y'u diffinnir gan adran 368A(1) o'r Ddeddf. Mae gwasanaeth, neu ran ddatgysylltiol o wasanaeth, yn wasanaeth rhaglenni ar-alw os yw'n bodloni'r holl feini prawf yn y diffiniad. Bydd methu â hysbysu gwasanaeth sy'n dod o fewn y diffiniad yn golygu bod y darparwr yn torri Rheol 1.*

[4] Adran 368BA o’r Ddeddf.

2.7 *Er mwyn bodloni'r rhwymedigaeth i hysbysu, rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw lenwi Ffurflen Hysbysiad[5].*

*2.8 Mae'r rhwymedigaeth yn berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw a oedd yn darparu gwasanaeth cyn 1 Tachwedd 2020, sy'n bodloni'r diffiniad o wasanaeth rhaglenni ar-alw o dan Ran 4A o'r Ddeddf o ganlyniad i newidiadau i adran 368A yn dilyn Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020, ac mewn perthynas â gwasanaethau sy'n dechrau ar ôl y pwynt hwnnw.*

## Rheol 2: Hysbysiad o wahaniaethau sylweddol i wasanaeth sydd wedi'i hysbysu[6]

2.9 Rhaid i berson sydd wedi rhoi hysbysiad, cyn darparu'r gwasanaeth sydd wedi'i hysbysu gydag unrhyw wahaniaethau sylweddol, roi hysbysiad i Ofcom ynghylch y gwahaniaethau.

2.10 Mae "gwahaniaethau sylweddol" yn cynnwys unrhyw newidiadau a allai effeithio ar y broses o benderfynu ar awdurdodaeth y gwasanaeth rhaglenni ar-alw.

2.11 Rhaid anfon hysbysiad o'r fath i Ofcom mewn ffordd o'r fath, a gan gynnwys gwybodaeth o'r fath, y gall Ofcom fynnu.

### Arweiniad

*2.12 Er mwyn bodloni'r ddyletswydd i hysbysu, rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw ddarparu manylion y newidiadau arfaethedig i Ofcom yn ysgrifenedig. Gellir gwneud hyn drwy anfon e-bost at: odpsnotifications@ofcom.org.uk.*

## Rheol 3: Hysbysiad o fwriad i roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth sydd wedi'i hysbysu[7]

2.13 Rhaid i berson sydd wedi rhoi hysbysiad, cyn rhoi'r gorau i'w ddarparu, roi hysbysiad i Ofcom o'r bwriad i roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth.

2.14 Rhaid anfon hysbysiad o'r fath i Ofcom mewn ffordd o'r fath, a gan gynnwys gwybodaeth o'r fath, y gall Ofcom fynnu.

### Arweiniad

*2.15 Er mwyn bodloni'r ddyletswydd i hysbysu, rhaid i'r hysbysiad gynnwys y dyddiad y mae darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn bwriadu rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth, a oes disgwyl i'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan*

[5] Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/cy/tv-radio-and-on-demand/video-on-demand/notifying-a-service?language=cy
[6] Adran 368BA o'r Ddeddf.
[7] Adran 368BA o'r Ddeddf.

*drydydd parti ar ôl y dyddiad hwnnw ac, os felly, manylion cyswllt y trydydd parti hwnnw.*

*2.16 Gellir rhoi gwybod am y bwriad i roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth drwy anfon e-bost at odpsnotifications@ofcom.org.uk.*

## Rheol 4: Talu ffi ofynnol[8]

2.17 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw dalu ffi i Ofcom fel y gall Ofcom ei fynnu o dan adran 368NA o'r Ddeddf.

### Arweiniad

*2.18 Nid oes yn rhaid i Ofcom godi ffi o dan adran 368NA, ond caiff wneud hynny yn unol â darpariaethau adran 368NA.*

*2.19 Os bydd Ofcom yn mynnu bod darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn talu ffi o dan adran 368NA, bydd hysbysiad o hyn yn cael ei roi i'r darparwr a bydd anfoneb yn cael ei rhoi. Gall peidio â thalu arwain at ddirwy a/neu atal y gwasanaeth rhaglenni ar-alw.*

## Rheol 5: Cadw rhaglenni am o leiaf 60 diwrnod[9]

2.20 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw gadw copi o bob rhaglen sy'n cael ei chynnwys yn y gwasanaeth am o leiaf 60 diwrnod ar ôl y diwrnod pan na fydd y rhaglen ar gael i'w gwylio.

2.21 Rhaid i'r copi o'r rhaglen a gedwir fod o safon ac mewn fformat sy'n golygu bod modd gwylio'r rhaglen fel y cafodd ei gwneud ar gyfer ei gwylio.

### Arweiniad

*2.22 Ni ddylai'r llun a'r sain fod wedi cael eu newid yn sylweddol ar y copi sy'n cael ei gadw (er enghraifft drwy docio neu dywyllu'r llun, neu drwy ostwng neu ystumio'r sain); dylai ansawdd y llun a'r sain ar y copi sy'n cael ei gadw gyfateb i'r hyn a oedd ar gael i'w wylio. Dylai'r fformat y cedwir y copi ganiatáu iddo gael ei ddarparu i Ofcom (os oes angen o dan Reol 6) yn y modd sy'n ofynnol.*

*2.23 Sylwch, pan fydd darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw wedi cael cwyn gan rywun sy'n honni ei fod wedi torri unrhyw Reol, byddai Ofcom yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alw gadw deunydd perthnasol am o leiaf 60 diwrnod ar ôl i'r sawl sy'n cwyno gael gwybod am ganlyniad trefn gwyno darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alw ei hun, hyd yn oed os yw hynny'n ymestyn y tu hwnt i 60 diwrnod ar ôl i'r deunydd beidio â bod ar gael i'w wylio.*

## Rheol 6: Darparu gwybodaeth[10]

2.24 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw gydymffurfio ag unrhyw

[8] Adran 368D(3)(za) o'r Ddeddf.
[9] Adran 368D(3)(zb) o'r Ddeddf.
[10] Adran 368D(3)(a) o'r Ddeddf.

ofyniad i ddarparu gwybodaeth o dan adran 368O o’r Ddeddf. Mae “gwybodaeth” yn cynnwys copïau o raglenni.

2.25 Gallai Ofcom fynnu bod person sy’n ymddangos iddo ei fod neu y bu yn ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw ac sydd â gwybodaeth sydd ei hangen ar Ofcom er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau, yn darparu’r holl wybodaeth o’r fath fel y mae Ofcom yn ystyried sy’n angenrheidiol at y diben dan sylw.

2.26 Rhaid i Ofcom beidio â gofyn am ddarparu gwybodaeth o dan adran 368O, ac eithrio drwy ofyn am yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys mewn hysbysiad a fydd wedi’i gyflwyno i’r sawl y gofynnir iddo am yr wybodaeth, sy’n disgrifio’r wybodaeth ofynnol ac sy’n nodi rhesymau Ofcom dros ofyn am yr wybodaeth, yn ogystal ag ar ba ffurf a modd y dylid darparu’r wybodaeth, a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â’r hysbysiad.

2.27 Rhaid i berson y mae gofyn iddo ddarparu gwybodaeth o dan yr adran hon ddarparu’r wybodaeth mewn ffordd ac o fewn cyfnod fel sy’n cael ei bennu gan Ofcom yn yr alwad am wybodaeth.

### Arweiniad

*2.28 Dylid darparu gwybodaeth ar ffurf sy'n rhesymol i Ofcom ofyn amdani. Pan fo'r wybodaeth sy'n ofynnol yn cynnwys copi o raglen, caiff y dull a bennir gynnwys darparu copi o raglen, neu nifer penodedig o gopïau, mewn fformat penodol.*

## Rheol 7: Cydweithredu[11]14

2.29 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw gydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan adran 368O.

### Arweiniad

*2.30 Mae'n rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw gydweithredu i ddarparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar OFCOM at ddibenion:*

*(a) penderfynu a yw person yn ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw neu wasanaeth rhaglenni ar-alw y tu allan i'r DU;*

*(b) penderfynu a yw person yn ddarparwr gwasanaeth Haen 1;*

*(c) penderfynu a fu unrhyw newid yn yr amgylchiadau a allai effeithio ar benderfyniad a grybwyllir ym mharagraff (a) neu (b);*

*(d) asesu cydymffurfiad ag unrhyw ddyletswydd a osodir ar ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar alw;*

*(e) asesu cydymffurfiad ag unrhyw ddyletswydd a osodir ar ddarparwr gwasanaeth Haen 1;*

[11] Adran 368D(3)(b) o’r Ddeddf.

*(f)* *ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdod i benderfynu a yw adran 368BA, 368CB neu 368D wedi cael ei thorri neu'n cael ei thorri;*

*(g)* *ymchwiliad i benderfynu a fu methiant i gymryd mesur priodol at y diben a grybwyllir yn adran 368E(4) neu fethiant i weithredu mesur o'r fath yn effeithiol;*

*(h)* *ymchwiliad sy'n cael ei gynnal i benderfynu a yw adran 368HC, 368HJ(1), 368HK(2) neu 368HP wedi cael ei thorri neu'n cael ei thorri;*

*(i)* *canfod neu gyfrifo refeniw cymwys perthnasol o dan adran 368J;*

*(j)* *pennu'r ffi briodol y mae'n rhaid i ddarparwr ei thalu o dan adran 368N; a*

*(k)* *cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â thriniaeth anghyfiawn neu annheg neu ymyrraeth â phreifatrwydd mewn unrhyw raglen sydd wedi'i chynnwys mewn gwasanaeth Haen 1.*

## Rheol 8: Cydymffurfio â hysbysiadau gorfodaeth[12]

2.31 Rhaid i ddarparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw gydymffurfio ag unrhyw hysbysiad gorfodaeth a gaiff.

## Rheol 9: Cyflenwi Gwybodaeth[13]

2.32 Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ddarparu'r wybodaeth ganlynol i ddefnyddwyr y gwasanaeth—

a) enw'r darparwr;

b) cyfeiriad y darparwr;

c) cyfeiriad electronig y darparwr[14];

d) datganiad bod y darparwr yn cael ei reoleiddio gan Ofcom; ac

e) enw, cyfeiriad a chyfeiriad electronig Ofcom (a'r Awdurdod Safonau Hysbysebu mewn perthynas â chynnwys hysbysebion).

### Arweiniad

*2.33* *Mae gan ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw rywfaint o ddisgresiwn o ran sut maent yn "darparu" yr wybodaeth ofynnol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. Gallai fod drwy ddarparu'r wybodaeth ar wefan y darparwr ei hun a/neu mewn ymateb i geisiadau gan ddefnyddwyr (ar yr amod bod y wefan yn darparu gwybodaeth am sut i wneud cais o'r fath). Fodd bynnag, prif*

[12] Adran 368I o'r Ddeddf.

[13] Adran 368D (2) o'r Ddeddf. Dylai darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw hefyd nodi'r rhwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth o dan adran 368O o'r Ddeddf.

[14] Wedi'i ddiffinio gan adran 368D(4) o'r Ddeddf fel, "cyfeiriad electronig y caiff defnyddwyr anfon deunydd cyfathrebu electronig, ac sy'n cynnwys unrhyw nifer o gyfeiriadau a ddefnyddir at ddibenion derbyn deunyddiau cyfathrebu o'r fath".

*bwrpas y rhwymedigaeth hon yw galluogi defnyddwyr y gwasanaeth i gysylltu â darparwr y gwasanaeth neu Ofcom. Felly, rhaid i'r wybodaeth fod ar gael yn rhwydd ac am ddim i aelodau'r cyhoedd ar gais.*

*2.34 Fformat a awgrymir ar gyfer gwybodaeth:*

- *Enw'r darparwr gwasanaeth (a'r logo)*
- *Cyfeiriad post*
- *Cyfeiriad e-bost*
- *Cyfeiriad gwefan*
- *Datganiad yn egluro bod y darparwr gwasanaeth o dan awdurdodaeth Ofcom a'r sail i hyn*
- *Enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost (i) Ofcom fel yr awdurdod rheoleiddio priodol ar gyfer cynnwys golygyddol; a (ii) yr Awdurdod Safonau Hysbysebu fel yr awdurdod rheoleiddio priodol ar gyfer cynnwys hysbysebu; ynghyd ag esboniad o rolau'r cyd-reoleiddwyr, gan ddefnyddio geiriad a awgrymir fel a ganlyn:*

*"Mae Ofcom yn rheoleiddio cynnwys golygyddol gwasanaethau rhaglenni ar-alw. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y glynir wrth reolau penodol. Mae'r rheolau hyn yn mynnu bod deunydd penodol yn cael ei gyfyngu i oedolion, yn gwahardd deunydd arall (gan gynnwys deunydd sy'n debygol o gymell casineb) yn gyfan gwbl, ac yn rheoli gosod cynnyrch mewn rhaglenni a noddi rhaglenni neu wasanaethau unigol. Os ydych chi wedi cwyno i ni a'ch bod yn anfodlon â'n hymateb, gallwch gyflwyno cwyn am unrhyw un o'r agweddau hyn ar ein gwasanaeth ar-alw i Ofcom drwy lenwi'r ffurflen gwyno ar-lein yn:* <https://www.ofcom.org.uk/cy/make-a-complaint/complain-about-tv-radio-or-on-demand-services/?language=cy>.

*Sylwch mai Ofcom yw'r rheoleiddiwr ar gyfer cynnwys golygyddol ar wasanaethau rhaglenni ar-alw. Mae hysbysebion yn ein gwasanaethau yn cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Safonau Hysbysebu. Gallwch weld gweithdrefnau cwyno'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ar-lein yn* <https://www.asa.org.uk/make-a-complaint.html>.

*Dylid cyflwyno unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â materion technegol, bilio, gosod neu farchnata yn uniongyrchol i ni yn [manylion cyswllt y darparwr gwasanaeth].*

*Mae rhagor o wybodaeth am Ofcom ar gael* yn https://www.ofcom.org.uk/cy *ac am yr Awdurdod Safonau Hysbysebu yn* www.asa.org.uk*".*

## Rheolau Golygyddol

### Rheol 10: Deunydd Niweidiol: Deunydd sy'n Debygol o Gymell Casineb[15]

2.35 Rhaid i wasanaeth rhaglenni ar-alw beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bobl neu aelod o grŵp o

[15] Adran 368E(1) o'r Ddeddf.

bobl ar sail unrhyw un o'r seiliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 o Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd, dyddiedig 7 Rhagfyr 2000, fel y'i mabwysiadwyd yn Strasbourg ar 12 Rhagfyr 2007.

### Arweiniad

*2.36* *Mae arweiniad Ofcom i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, sy'n berthnasol i ddefnyddio Rheolau 10, 11 a 12 ar gael* yma.

## Rheol 11: Deunydd Niweidiol: Deunydd wedi'i wahardd[16]

2.37 Rhaid i wasanaeth rhaglenni ar-alw beidio â chynnwys unrhyw ddeunydd sydd wedi cael ei wahardd.

2.38 Ystyr "deunydd wedi'i wahardd" yw:

a) deunydd y byddai ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn drosedd o dan adran 1 o Ddeddf Terfysgaeth 2006 (annog terfysgaeth),

b) deunydd y mae ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn ymddygiad o fath a fyddai, yn union cyn diwrnod cwblhau'r IP, wedi bod yn ofynnol gan unrhyw un o'r canlynol i'w gosbi fel trosedd—

   i) [gadawyd yn wag yn fwriadol]

   ii) Erthygl 5(4) o Gyfarwyddeb 2011/93/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011 ar fynd i'r afael â cham-drin rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant a phornograffi plant, neu

   iii) Erthygl 1 Penderfyniad Fframwaith y Cyngor (2008/913/JHA) dyddiedig 28 Tachwedd 2008 ar fynd i'r afael â mathau a mynegiadau penodol o hiliaeth a senoffobia drwy gyfraith trosedd[17];

c) gwaith fideo mae'r awdurdod gwaith fideo wedi pennu at ddibenion Deddf 1984[18] nad yw'n addas i gael tystysgrif dosbarthiad mewn perthynas ag ef, neu

d) deunydd y mae ei natur yn golygu y byddai'n rhesymol disgwyl petai'r deunydd yn cael ei gynnwys mewn gwaith fideo a gyflwynwyd i'r awdurdod gwaith fideo ar gyfer tystysgrif dosbarthiad, byddai'r awdurdod gwaith fideo yn penderfynu at y dibenion hynny nad oedd y gwaith fideo yn addas i gael tystysgrif dosbarthiad ar ei gyfer.

2.39 Wrth benderfynu a fydd unrhyw ddeunydd yn perthyn i (d), rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod gwaith fideo (Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain) yng nghyswllt ei bolisi mewn perthynas â chyhoeddi tystysgrifau dosbarthiad.

---

[16] Adran 368E(2) a (3) o'r Ddeddf.
[17] OJ Rhif L 328, 6.12.2008, t. 55.
[18] Deddf Recordiadau Fideo 1984

## Arweiniad

2.40 *Mae arweiniad Ofcom i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, sy'n berthnasol i ddefnyddio Rheolau 10, 11 a 12 ar gael yma.*

# Rheol 12: Deunydd Niweidiol: Diogelu Pobl Ifanc dan 18 (Deunydd dan Gyfyngiadau Arbennig)[19]

2.41 Rhaid i berson sy'n darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw gymryd mesurau priodol[20] i sicrhau bod unrhyw ddeunydd sydd wedi'i gyfyngu'n arbennig yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth mewn ffordd sy'n sicrhau na fydd pobl ifanc o dan 18 oed fel arfer yn ei weld na'i glywed.

2.42 Mae'r mesurau i fod yn gymesur â photensial y deunydd i niweidio datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol personau o'r fath.

2.43 Ystyr "deunydd dan gyfyngiadau arbennig" yw—

a) gwaith fideo y mae'r awdurdod gwaith fideo[21] wedi cyhoeddi tystysgrif dosbarthiad R18 mewn perthynas ag ef;

b) deunydd y mae ei natur yn golygu y byddai'n rhesymol disgwyl petai'r deunydd yn cael ei gynnwys mewn gwaith fideo a gyflwynwyd i'r awdurdod gwaith fideo ar gyfer tystysgrif dosbarthiad, byddai'r awdurdod gwaith fideo yn cyhoeddi tystysgrif dosbarthiad R18; neu

c) deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed.

2.44 Wrth benderfynu a fydd unrhyw ddeunydd yn perthyn i (b), rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr awdurdod gwaith fideo yng nghyswllt ei bolisi mewn perthynas â chyhoeddi dosbarthiad.

# Diffiniadau statudol sy'n berthnasol i Reol 12 - adran 368E(7):

2.45 Fel a ganlyn:

- Ystyr "Deddf 1984 " yw Deddf Recordiadau Fideo 1984;
- mae "tystysgrif dosbarthiad" yn golygu'r un fath â'r ystyr sydd yn Neddf 1984 (gweler adran 7 o'r Ddeddf honno[22]);
- Ystyr "tystysgrif dosbarthiad R18" yw tystysgrif dosbarthiad sy'n cynnwys y datganiad a grybwyllir yn adran 7(2)(c) o Ddeddf 1984 na chaiff recordiad fideo sy'n cynnwys y gwaith fideo ei gyflenwi ac eithrio mewn siop rhyw gofrestredig;

---

[19] Adran 368E(4) a (5) o'r Ddeddf.

[20] Rhaid i'r awdurdod rheoleiddio priodol lunio arweiniad, a'i adolygu a'i ddiwygio o bryd i'w gilydd, ar gyfer darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw sy'n ymwneud â mesurau a allai fod yn briodol at ddibenion adran 368E(4) (sicrhau nad yw deunydd dan gyfyngiadau arbennig ar gael i bobl ifanc dan 18 oed).

[21] Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain ("BBFC") sydd wedi'i ddynodi yn 'awdurdod gwaith fideo' ar hyn o bryd.

[22] https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1984/39/section/7

- ystyr “yr awdurdod gwaith fideo” yw'r person neu’r personau a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf 1984 fel yr awdurdod sy’n gyfrifol am lunio trefniadau mewn perthynas â gwaith fideo ac eithrio gemau fideo; ac
- mae “gwaith fideo” yn golygu’r un fath â’r ystyr sydd yn Neddf 1984 (gweler adran 1(2) o’r Ddeddf honno).

### Arweiniad

*2.46* *Mae arweiniad Ofcom i ddarparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar fesurau i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, sy’n berthnasol i ddefnyddio Rheolau 10, 11 a 12 ar gael* [yma](#)*.*

## Rheol 13: Nawdd[23]

2.47 Rhaid i wasanaeth rhaglenni ar-alw neu raglen sy’n cael ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw beidio â chael ei noddi—

a) er mwyn hyrwyddo sigaréts neu gynnyrch tybaco arall; neu

b) gan gwmni sy’n cynhyrchu neu’n gwerthu sigaréts neu gynnyrch tybaco arall fel ei brif weithgarwch.

2.48 Rhaid i wasanaeth rhaglenni ar-alw neu raglen sy’n cael ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw beidio â chael ei noddi-

a) at ddiben hyrwyddo sigaréts electronig neu gynhwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig; neu

b) gan gwmni sy’n cynhyrchu neu’n gwerthu sigaréts electronig neu gynhwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig fel ei brif weithgarwch.

2.49 Rhaid i wasanaeth rhaglenni ar-alw neu raglen sydd wedi’i chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw beidio â chael ei noddi er mwyn hyrwyddo meddyginiaeth sydd ond ar gael ar bresgripsiwn.

2.50 Rhaid i wasanaeth rhaglenni ar-alw beidio â chynnwys rhaglen newyddion neu raglen materion cyfoes a noddir.

2.51 Mae paragraffau 1.64 i 1.70 yn berthnasol i wasanaeth rhaglenni ar-alw a noddir neu sy’n cynnwys rhaglen a noddir.

2.52 Rhaid i noddi gwasanaeth neu raglen beidio â dylanwadu ar gynnwys y gwasanaeth neu’r rhaglen mewn ffordd sy’n effeithio ar annibyniaeth olygyddol darparwr y gwasanaeth.

2.53 Pan fydd gwasanaeth neu raglen yn cael ei noddi er mwyn hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau, rhaid i’r gwasanaeth neu’r rhaglen a noddir a chyhoeddiadau nawdd sy’n ymwneud â hynny beidio â hybu’n uniongyrchol prynu neu rentu’r nwyddau neu’r gwasanaethau, boed

[23] Adran 368G o’r Ddeddf.

hynny drwy gyfeirio atynt mewn ffordd sy'n hyrwyddo neu fel arall.

2.54 Pan fydd gwasanaeth neu raglen yn cael ei noddi er mwyn hyrwyddo diod alcoholig, rhaid i'r gwasanaeth neu'r rhaglen a'r cyhoeddiadau nawdd sy'n ymwneud â hynny beidio ag—

a) bod wedi'i anelu'n benodol at bobl dan ddeunaw oed; na

b) annog yfed eithafol ar ddiodydd o'r fath.

2.55 Rhaid i wasanaeth a noddir roi gwybod yn glir i ddefnyddwyr bod cytundeb noddi mewn bodolaeth.

2.56 Rhaid i enw'r noddwr a'r logo neu symbol arall (os oes un o gwbl) y noddwr gael ei ddangos ar ddechrau neu ar ddiwedd rhaglen sy'n cael ei noddi.

2.57 Ni cheir defnyddio technegau sy'n manteisio ar bosibilrwydd cyfleu neges yn isganfyddol neu'n llechwraidd mewn cyhoeddiadau nawdd.

2.58 Rhaid i gyhoeddiad nawdd beidio ag—

a) niweidio'r parch at urddas dynol;

b) cynnwys neu hybu gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol;

c) annog ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch;

d) annog ymddygiad sy'n hynod niweidiol i'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;

e) achosi niwed corfforol, meddyliol neu foesol i bobl dan ddeunaw oed;

ea) cymell pobl o'r fath yn uniongyrchol i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau mewn ffordd sy'n manteisio ar eu diffyg profiad neu eu hygrededd;

f) annog y bobl hyn yn uniongyrchol i berswadio eu rhieni neu bobl eraill i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau;

g) manteisio ar ymddiriedaeth y bobl hyn mewn rhieni, athrawon neu bobl eraill; neu

h) dangos y bobl hyn yn afresymol mewn sefyllfaoedd peryglus.

## Diffiniad statudol o 'raglen noddedig' – adran 368G(12), (13) a (14)

2.59 Mae rhaglen sy'n cael ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn "noddedig" os bydd person ("y noddwr") ac eithrio:

a) darparwr y gwasanaeth hwnnw, neu

b) gynhyrchydd y rhaglen honno,

wedi talu am holl gostau'r rhaglen neu rywfaint o'r costau er mwyn hyrwyddo enw, nod masnach, delwedd, gweithgareddau, gwasanaethau neu gynnyrch y noddwr neu berson arall. At y dibenion hyn, mae person yn talu rhywfaint neu holl gostau rhaglen sydd wedi'i chynnwys mewn gwasanaeth dim ond os yw'r person hwnnw'n gwneud taliad neu'n

darparu adnoddau eraill at ddibenion talu neu arbed rhywfaint neu'r cyfan o gostau'r canlynol—

a) cynhyrchu'r rhaglen honno;

b) darlledu'r rhaglen honno; neu

c) sicrhau bod y rhaglen honno ar gael fel rhan o'r gwasanaeth.

2.60 Ni chaiff rhaglen ei noddi os yw'n disgyn o fewn y diffiniad hwn dim ond drwy rinwedd cynnwys gosod cynnyrch[24] neu osod propiau[25] (gweler Rheol 14 isod).

## Diffiniad statudol o wasanaeth rhaglenni ar-alw noddedig - adran 368G(15) a (16)

2.61 Mae gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn "noddedig" os oes person ("y noddwr") ac eithrio darparwr y gwasanaeth wedi talu holl gostau darparu'r gwasanaeth neu rywfaint o'r costau er mwyn hyrwyddo enw, nod masnach, delwedd, gweithgareddau, gwasanaethau neu gynnyrch y noddwr neu berson arall.

2.62 Ni ystyrir bod person wedi talu am gostau darparu gwasanaeth neu rywfaint o'r costau dim ond os yw rhaglen sydd wedi cael ei chynnwys yn y gwasanaeth hwnnw wedi cael ei noddi gan y person hwnnw.

2.63 Diffinnir "cyhoeddiad nawdd" yn adran 368G(17) ac mae'n golygu:

a) unrhyw beth sydd wedi cael ei gynnwys er mwyn cydymffurfio â'r gofynion i roi gwybod yn glir i ddefnyddwyr am fodolaeth cytundeb nawdd a dangos ar ddechrau neu ddiwedd rhaglen noddedig enw'r noddwr a'r logo neu symbol arall (os oes un o gwbl) y noddwr; a

b) unrhyw beth sydd wedi cael ei gynnwys ar yr un pryd neu fel arall mewn cysylltiad ag unrhyw beth ym mharagraff (a).

## Diffiniad statudol o "gynnyrch tybaco" – adran 1 o Ddeddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002

2.64 Ystyr "cynnyrch tybaco" yw cynnyrch sy'n cynnwys tybaco yn gyfan gwbl neu'n rhannol ac y bwriedir iddo gael ei ysmygu, ei snwffio, ei sugno neu ei gnoi.

## Diffiniadau statudol o "sigarét electronig" a "chynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig" – adran 368R(1) o'r Ddeddf

2.65 Mae "sigarét electronig" yn golygu cynnyrch:

a) y gellir ei ddefnyddio i gymryd anwedd sy'n cynnwys nicotin drwy declyn sy'n cael ei roi mewn ceg, neu unrhyw ran o'r cynnyrch hwnnw, gan gynnwys cetrisen, tanc a'r ddyfais heb getrisen neu danc (ni waeth a yw'n un sy'n cael ei ddefnyddio unwaith neu'n un mae modd ei ail-lenwi drwy ddefnyddio cynhwysydd ail-lenwi a thanc, neu un mae modd ei ailwefru gyda chetrisen

[24] Gweler Adran 368H(1) o'r Ddeddf

[25] Gweler Adran 368H(2) o'r Ddeddf

mae modd ei defnyddio unwaith), a

b) nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

2.66 Mae "cynhwysydd ail-lenwi sigarét electronig" yn golygu llestr sydd:

a) yn cynnwys hylif sy'n cynnwys nicotin, mae modd ei ddefnyddio i ail-lenwi sigarét electronig; a

b) nad yw'n gynnyrch meddyginiaethol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 nac yn ddyfais feddygol o fewn ystyr rheoliad 2 o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.

## Rheol 14: Gwahardd Gosod Cynnyrch ac Eithriadau[26]

2.67 Sylwch fod rheolau gwahanol yn berthnasol yn dibynnu ar bryd y dechreuwyd cynhyrchu'r rhaglen berthnasol, gan fod y ddeddfwriaeth wedi cael ei newid dros amser i ehangu'r categorïau gwahardd ond gellir dangos rhaglenni a gynhyrchwyd cyn y newidiadau hynny o hyd.

2.68 Mae rheol 14 ond yn berthnasol mewn perthynas â rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 19 Rhagfyr 2009. Rhoddir gwaharddiadau penodol pellach mewn troednodiadau i'r paragraffau perthnasol isod.

### Gosod Cynnyrch wedi'i Wahardd

2.69 Mae gosod cynnyrch wedi'i wahardd mewn unrhyw rai o'r canlynol sydd wedi cael eu cynnwys mewn gwasanaethau rhaglenni ar-alw[27]:

a) rhaglenni plant;

b) rhaglenni newyddion a materion cyfoes;

c) rhaglenni materion defnyddwyr; a

d) rhaglenni crefyddol.

2.70 Mae gosod cynnyrch wedi'i wahardd mewn gwasanaethau rhaglenni ar-alw os—

a) bydd yn cynnwys sigaréts neu gynnyrch tybaco arall;

b) bydd gan neu ar ran cwmni sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigaréts neu gynhyrchion tybaco eraill fel ei brif weithgarwch;

c) bydd yn feddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig;

---

[26] Adran 368H o'r Ddeddf.

[27] Mae'r gwaharddiad ehangach ar osod *yr holl* gynnyrch mewn: rhaglenni newyddion a materion cyfoes; rhaglenni materion defnyddwyr; a rhaglenni crefyddol yn berthnasol dim ond i raglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 31 Hydref 2020 (D.S. mae'r gwaharddiadau penodol ar gyfer rhai mathau o osod cynnyrch ym mhob rhaglen yn dal yn berthnasol i'r categorïau hyn o raglenni lle dechreuodd cynhyrchu'n gynharach a dim ond bod y mathau hyn o raglenni wedi cael eu hychwanegu at y gwaharddiad cyffredinol sydd eisoes yn berthnasol i raglenni plant ar y pwynt hwn).

d) bydd yn sigaréts electronig neu'n gynhwysyddion ail-lenwi[28]; neu

e) bydd gan gwmni, neu ar ran cwmni, sy'n cynhyrchu neu'n gwerthu sigaréts electronig neu gynhwysyddion ail-lenwi sigarét electronig fel ei brif weithgarwch[29].

2.71 Rhaid i osod cynnyrch gyda diodydd alcoholig beidio ag—

a) bod wedi'i anelu'n benodol at bobl dan ddeunaw oed; na

b) annog yfed eithafol ar ddiodydd o'r fath.

## Gosod Cynnyrch a Ganiateir[30]

2.72 Yn amodol ar yr uchod, mae gosod cynnyrch yn cael ei ganiatáu fel arall mewn rhaglenni sydd wedi cael eu cynnwys mewn gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar yr amod—

a) bod amodau B i F isod yn cael eu bodloni, a

b) pan fydd y rhaglen sy'n cynnwys y gosod cynnyrch wedi cael ei chynhyrchu neu ei chomisiynu gan y darparwr gwasanaeth rhaglenni ar-alw neu unrhyw berson cysylltiedig, bod amod G hefyd yn cael ei fodloni.

## Amodau B i F:

2.73 Amod B

Nid yw gosod cynnyrch wedi dylanwadu ar gynnwys y rhaglen mewn ffordd sy'n effeithio ar annibyniaeth olygyddol darparwr y gwasanaeth.

2.74 Amod C

Ni ddylai gosod cynnyrch annog prynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau yn uniongyrchol, boed hynny drwy gyfeirio at y nwyddau neu'r gwasanaethau mewn ffordd sy'n eu hyrwyddo neu fel arall.

2.75 Amod D

Ni ddylai'r rhaglen roi amlygrwydd amhriodol i'r cynhyrchion, y gwasanaethau na'r nodau masnach dan sylw;

2.76 Amod E

---

[28] Mae gwahardd gosod cynnyrch sigaréts electronig a chynhwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig yn benodol ond yn berthnasol mewn perthynas â rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 19 Mai 2016.

[29] Dim ond mewn perthynas â rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu ar ôl 31 Hydref 2020 y mae'r gwaharddiad ehangach ar osod cynnyrch gan neu ar ran cwmni y mae ei brif weithgarwch yn ymwneud â chynhyrchu neu werthu sigaréts electronig neu gynwysyddion ail-lenwi sigaréts electronig (hynny yw, nid dim ond y cynnyrch ond y gwneuthurwr neu'r gwerthwr) yn berthnasol.

[30] Mae rhaglenni y dechreuwyd eu cynhyrchu cyn 1 Tachwedd 2020 yn elwa ar yr eithriad "gosod cynnyrch a ganiateir" dim ond os ydynt: yn ffilm a wneir ar gyfer y sinema; yn ffilm neu'n gyfres a wneir ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu ar gyfer gwasanaeth rhaglenni ar-alw; yn rhaglen chwaraeon; neu'n rhaglen adloniant ysgafn (yn ogystal â bodloni amodau A-G - nodwch nad yw amod A bellach yn bodoli yn y Gyfarwyddeb AVMS).

Ni ddylai gosod cynnyrch ddefnyddio technegau sy'n manteisio ar bosibilrwydd cyfleu neges yn isganfyddol neu'n llechwraidd.

2.77 Amod F

Nid yw'r ffordd y mae cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, yn cael ei gynnwys yn y rhaglen, neu'r cyfeiriad ato, drwy osod cynnyrch yn—

a) niweidio'r parch at urddas dynol;

b) hybu gwahaniaethu ar sail rhyw, tarddiad hiliol neu ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabledd, oed neu gyfeiriadedd rhywiol;

c) annog ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch;

d) annog ymddygiad sy'n hynod niweidiol i'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd;

e) achosi niwed corfforol, meddyliol neu foesol i bobl dan ddeunaw oed;

ea) cymell pobl o'r fath yn uniongyrchol i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau mewn ffordd sy'n manteisio ar eu diffyg profiad neu eu hygrededd;

f) annog y bobl hyn yn uniongyrchol i berswadio eu rhieni neu bobl eraill i brynu neu rentu nwyddau neu wasanaethau;

g) manteisio ar ymddiriedaeth y bobl hyn mewn rhieni, athrawon neu bobl eraill; neu

h) dangos y bobl hyn yn afresymol mewn sefyllfaoedd peryglus.

## Amod G

2.78 Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni ar-alw dan sylw yn tynnu sylw'n briodol at y ffaith bod gosod cynnyrch wedi cael ei gynnwys mewn rhaglenni, ddim yn llai aml nag—

a) ar ddechrau ac ar ddiwedd rhaglen o'r fath, a

b) o ran gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n cynnwys egwyliau hysbysebion, pan fydd y rhaglen yn ailddechrau ar ôl pob egwyl hysbysebion o'r fath.

2.79 Sylwch: Mae Amod G yn berthnasol dim ond pan fydd y rhaglen sy'n cynnwys y gosod cynnyrch wedi cael ei chynhyrchu neu ei chomisiynu gan ddarparwr y gwasanaethau neu unrhyw berson cysylltiedig.

## Diffiniad statudol o "osod cynnyrch" – adran 368H(1)

2.80 Ystyr "gosod cynnyrch", mewn cysylltiad â rhaglen a gaiff ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw, yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato mewn rhaglen, a hynny—

a) at ddiben masnachol,

b) yn gyfnewid am unrhyw daliad, neu roi ystyriaeth werthfawr arall, i unrhyw ddarparwr perthnasol neu unrhyw un sy'n gysylltiedig, ac

c) heb fod yn osod propiau.

## Diffiniad statudol o "osod propiau" – adran 368H(2)

2.81 Ystyr "gosod propiau", mewn cysylltiad â rhaglen a gaiff ei chynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw, yw cynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen, neu gyfeirio ato mewn rhaglen, a hynny: pan nad yw darparu cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach o werth sylweddol; ac

a) pan na fydd unrhyw ddarparwr perthnasol, neu rywun sy'n gysylltiedig â darparwr perthnasol, wedi cael unrhyw daliad neu ystyriaeth werthfawr arall mewn cysylltiad â'i gynnwys neu gyfeirio ato yn y rhaglen, gan anwybyddu'r costau a arbedwyd drwy gynnwys cynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach, neu gyfeirio ato yn y rhaglen.

## Diffiniad statudol o "raglen i blant" – adran 368G(13)

2.82 Mae "rhaglen i blant" yn golygu rhaglen a wneir:

a) ar gyfer gwasanaeth rhaglenni teledu neu ar gyfer gwasanaeth rhaglenni ar-alw; a

b) i'w gwylio'n bennaf gan bobl dan un ar bymtheg oed

## Diffiniadau statudol eraill ar gyfer Rheol 14 – adran 368H(16)

2.83 Ystyr "ffilm a gynhyrchir ar gyfer y sinema" yw ffilm a gynhyrchir gyda'r bwriad o'i dangos i'r cyhoedd am y tro cyntaf mewn sinema.

2.84 Ystyr "darparwr perthnasol" mewn cysylltiad â rhaglen yw:

a) darparwr y gwasanaeth rhaglenni ar-alw y mae'r rhaglen yn rhan ohono; a

b) cynhyrchydd y rhaglen.

2.85 Mae "gwerth gweddilliol" yn golygu unrhyw werth ariannol neu economaidd arall sydd yn nwylo'r darparwr perthnasol ar wahân i arbedion costau cynnwys neu gyfeirio at gynnyrch, gwasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen.

2.86 Ystyr "gwerth sylweddol" yw gwerth gweddilliol sy'n fwy na gwerth dibwys.

2.87 Mae "nod masnach", mewn cysylltiad â busnes, yn cynnwys unrhyw ddelwedd (fel logo) neu sain a gysylltir yn gyffredin â'r busnes hwnnw, neu ei gynhyrchion neu ei wasanaethau.

# Rheol 15: Gwaith Ewropeaidd[31]

2.88 Rhaid i berson sy'n darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw sicrhau bod o leiaf 30% o'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth yn waith Ewropeaidd bob blwyddyn ar gyfartaledd.

2.89 Rhaid i berson sy'n darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw sicrhau amlygrwydd gwaith Ewropeaidd yn y gwasanaeth.

[31] Adran 368CB

2.90 Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol i berson sy'n darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod pan fydd gan —

a) y gwasanaeth drosiant isel neu gynulleidfa isel; neu

b) pan fydd yn anymarferol neu'n anghyfiawn i'r rheolau hyn fod yn berthnasol oherwydd natur neu thema'r gwasanaeth.

2.91 Darperir esemptiad ar gyfer (b) yn ôl disgresiwn yr awdurdod rheoleiddio priodol.

2.92 Os nad yw person yn darparu gwasanaeth rhaglenni ar-alw am flwyddyn gyfan, mae cydymffurfio â'r rhwymedigaeth cwota i'w asesu mewn perthynas â'r cyfnod yn y flwyddyn honno pan fydd y person yn darparu'r gwasanaeth.

2.93 Wrth asesu cydymffurfiad darparwr â'r cwota, rhaid diystyru unrhyw gyfnod y mae esemptiad o dan (a) neu (b) yn berthnasol i'r darparwr.

2.94 Mae gan "waith Ewropeaidd" yr un ystyr ag sydd iddo yn y Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol gan ei fod yn cael effaith yng nghyfraith yr UE o bryd i'w gilydd ac mae'n cynnwys gwaith y bernir ei fod yn waith Ewropeaidd gan Erthygl 1(4) o'r Gyfarwyddeb honno;

2.95 Nid yw "rhaglenni" yn cynnwys hysbysebion, rhaglenni newyddion, digwyddiadau chwaraeon, gemau, gwasanaethau teletestun na thelesiopa.

2.96 Dylid dehongli'r Rheol hon yn unol â'r Ohebiaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd (2020/C223/03) - "Arweiniad yn unol ag Erthygl 13(7) o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ar gyfrifo cyfran y gwaith Ewropeaidd mewn catalogau ar-alw ac ar y diffiniad o gynulleidfa isel a throsiant isel" a gyhoeddwyd yng Nghyfrol 63 o Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar 7 Gorffennaf 2020(29) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

## Arweiniad

*2.97* *Mae arweiniad Ofcom ar gyfer darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw ar ofynion sy'n ymwneud â Gwaith Ewropeaidd, sy'n berthnasol i ddefnyddio Rheol 15, ar gael* yma.